## PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Conference Room 1a, County Hall, Ruthin, Dydd Iau, 1 Chwefror 2018 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Martyn Holland, Huw Jones (Cadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Bob Murray, Arwel Roberts, Peter Scott a/ac David Williams.

Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Y Cynghorydd Richard Mainon, Y Cynghorydd Julian Thompson Hill, Y Cynghorydd Graham Timms a/ac Y Cynghorydd Emrys Wynne

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant (KIE), Prif Reolwr Addysg (JM), Arweinydd Addysg Uwchradd GwE (PM-J), Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Swyddog Cwynion Statudol a Chorfforaethol (KR), Rheolwr Gwella Gwasanaethau (FA), Rheolwr Cyfreithiol a Gweithrediadau Caffael (HM), Partner Busnes Caffael (MW), Cydlynydd Archwilio (RE) a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (KAE)

Aelodau cyfetholedig dros addysg (eitem 5 ar y rhaglen yn unig) Mike Hall, Kathleen Jones a David Lloyd.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Hugh Irving, a'r Aelod Cyfetholedig Gareth Williams.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Roedd y Cynghorwyr canlynol yn datgan cysylltiad:

- Ellie Chard – Llywodraethwr Ysgol Tir Morfa ac Ysgol Mair
- Martyn Holland - Llywodraethwr Ysgol Bro Famau a'r Santes Ffraid
- Huw Jones – Llywodraethwr Ysgol Caer Drewyn ac Ysgol Carrog
- Arwel Roberts – Llywodraethwr Ysgol y Castell ac Ysgol Dewi Sant
- Peter Scott – Llywodraethwr Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Gynradd Wirfoddol Llanelwy a
- Graham Timms – Llywodraethwr Ysgol Dinas Brân

## 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2017. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

***PENDERFYNWYD*** ***y dylid, yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo Cofnodion y cyfarfod Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2017 fel cofnod cywir.***

Cyn dechrau'r drafodaeth ar yr eitem busnes canlynol, diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant a'r Prif Reolwr Addysg am y digwyddiad hyfforddiant ardderchog ar archwilio data addysg a hwyluswyd yn gynharach yr wythnos honno i'r holl gynghorwyr. Cafwyd ymateb da gan bawb a fynychodd y sesiwn oedd yn teimlo ei fod yn hynod ddefnyddiol at ddiben deall data perfformiad addysgol.

## 5 CANLYNIADAU ARHOLIADAU CYFNOD ALLWEDDOL 4 WEDI EU GWIRIO

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc gyd adroddiad y Prif Reolwr Addysg ac Arweinydd Uwchradd GwE (dosbarthwyd yn flaenorol) a oedd yn cyflwyno perfformiad canlyniadau arholiadau allanol ysgolion Sir Ddinbych yng Nghyfnod Allweddol (CA) 4 ac ôl 16.

Yn ystod ei gyflwyniad, dywedodd yr Aelod Arweiniol nad oedd yr ystadegau wedi eu gwirio a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn amrywio'n sylweddol o'r data a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym Medi 2017. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant ers i'r Pwyllgor ystyried y data dros dro roedd Ysgrifennydd Cabinet Addysg Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad yn rhybuddio awdurdodau lleol yn erbyn cymharu canlyniadau arholiadau allanol blwyddyn academaidd 2016/17 gyda rhai blynyddoedd blaenorol, oherwydd y cyflwynwyd y fframwaith arholiadau newydd ar gyfer y flwyddyn 2016/17. O dan y fframwaith newydd nid oedd cymwysterau llenyddiaeth Cymraeg na Saesneg yn cyfrif tuag at Lefel 2+ (L2+) Dangosydd Perfformiad Allweddol TGAU (DPA) ac roedd yna fwlch o 40% ar unrhyw gymwysterau galwedigaethol oedd yn cyfrif tuag at DPA L1, L2 a L2+

Hysbysodd y Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant ac Arweinydd Uwchradd GwE y Pwyllgor er ei bod yn galonogol adrodd bod gan Sir Ddinbych ddwy o'r ysgolion oedd yn perfformio orau ar draws rhanbarth Gogledd Cymru, Ysgol Bryn Hyfryd a Santes Ffraid, roedd hefyd yn cynnwys dwy o ysgolion mwyaf heriol y rhanbarth o safbwynt y nifer o ddisgyblion oedd yn cael Cinio Ysgol am Ddim o fewn yr ardal, Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol Uwchradd Y Rhyl, y ddwy ysgol â dros 30% o ddisgyblion yn hawlio Prydau Ysgol am Ddim. Roedd cael ysgolion yn y ddau gategori hwn yn pwysleisio proffil

amrywiol a chymhleth y sir yn gyffredinol, yn ogystal â'i hysgolion ac yn amlygu'r angen am gefnogaeth arbenigol dwys wedi'i thargedu mewn ysgolion penodol.

Yn genedlaethol roedd y data perfformiad wedi dangos gostyngiad mewn perfformiad ar draws y wlad lle roedd yna lefelau uchel o amddifadedd, wedi'i fesur yn ôl nifer y disgyblion â hawl i Brydau Ysgol am Ddim. Roedd Llywodraeth Cymru yn fwy nag ymwybodol o'r ystadegyn hwn ac roedd yna drafodaeth genedlaethol o safbwynt heriau'r cymwysterau newydd ar gyfer rhai disgyblion â hawl i Brydau Ysgol am Ddim.

Hysbysodd Arweinydd Uwchradd GwE yr aelodau:

- ei bod yn galonogol adrodd nad oedd Ysgol Uwchradd Prestatyn a Santes Ffraid yn cael eu monitro gan Estyn mwyach;roedd perfformiad L2+ TGAU y sir wedi bod yn gryf am y 4 blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, bu gostyngiad mewn perfformiad yn ystod 2016/17 oedd wedi'i briodoli i'r cymhwyster newydd angen lefel uwch o sgiliau darllen a gwydnwch. Roedd yr agwedd hon wedi profi'n anodd i rai disgyblion â hawl i Brydau Ysgol am Ddim;Roedd perfformiad Cymraeg iaith gyntaf yn Sir Ddinbych ymysg y gorau yn y rhanbarth ac yng Nghymru. Roedd y papur arholiad ac asesiad Cymraeg iaith gyntaf yr un fath â'r asesiad ac arholiad iaith Saesneg. Roedd yn ddiddorol nad oedd perfformiad cryf disgyblion Sir Ddinbych yn yr iaith Gymraeg wedi'i adlewyrchu mewn rhannau eraill o Gymru;perfformiad yn yr arholiad ac asesiad iaith Saesneg wedi gostwng yn 2016/17;

- roedd y cymhwyster 'Gwyddoniaeth' cyffredinol wedi diflannu yn ystod 2016/17, bellach roedd yn ofynnol i ddisgyblion eistedd papur pwnc gwyddoniaeth penodol a dau arholiad mathemateg - rhifedd ynghyd ag arholiad mathemateg a gwyddoniaeth; ac

- at ddibenion 'Safon Uwch' roedd Llywodraeth Cymru angen adroddiad ar gyrhaeddiad 3 Safon Uwch A* i C. Fodd bynnag, ni chaniateir i ystadegau Bagloriaeth Cymru gael eu cynnwys yn y data hwn. Adroddwyd arnynt ar wahân;

Hysbysodd Prif Reolwr Addysg y Cyngor y Pwyllgor bod yr Awdurdod yn defnyddio strategaethau cyson i geisio gwella presenoldeb mewn ysgolion. Er bod cyfraddau gwahardd disgyblion y Cyngor am hyd at 5 diwrnod yn un o'r uchaf yng Nghymru roedd yna reswm y tu ôl i'r ystadegyn hwn. Roedd yr Awdurdod wedi gwneud penderfyniad y dylid adrodd am bob disgybl y gofynnwyd iddynt beidio mynd i'r ysgol am gyfnod o 5 diwrnod neu lai fesul ysgol i'r Awdurdod fel gwaharddiadau tymor byr i alluogi'r Awdurdod gysylltu â nhw a sicrhau nad oeddent 'ar goll' yn y tymor hir.

Roedd perfformiad y Cyngor mewn perthynas â gwaharddiadau tymor penodol (5 diwrnod neu fwy) neu waharddiad parhaol yn llawer gwell, oedd yn ymddangos fel petai'r strategaeth llym yn berthnasol i waharddiadau tymor byr, gyda'r bwriad i gadw disgyblion mewn cysylltiad ag addysg a dysgu, yn gweithio. Roedd adroddiad manwl ar Reoli Ymddygiad ac Absenoldeb yn ysgolion y sir wedi'i drefnu ar gyfer cyflwyniad i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod yn Ebrill 2018.

Mewn ymateb i gwestiynau aelodau'r Pwyllgor, roedd yr Aelod Arweiniol, yr Awdurdod Lleol a swyddogion Addysg GwE yn:

- cadarnhau mewn perthynas â chanlyniadau Safon Uwch, roedd disgyblion yn ysgolion y sir yn ennill mwy o ganlyniadau 3 gradd A* neu A na'r sawl oedd yn astudio mewn colegau addysg bellach, er bod canlyniadau colegau lleol wedi gwella.  Fodd bynnag, roedd myfyrwyr oedd yn mynychu'r 6ed dosbarth ym Mhrestatyn a'r Rhyl yn perfformio'n gryf yn eu Safon A;yn hanesyddol, nid oedd canlyniadau Safon Uwch wedi bod yn destun yr un lefel o graffu gan Estyn â pherfformiad lefel TGAU.  Fodd bynnag, byddai Llywodraeth Cymru ac Estyn yn ymgymryd â darn o waith yn fuan gyda'r bwriad o sefydlu gwybodaeth gymharol gwell ar ganlyniadau Safon Uwch a Chymhwyster Galwedigaethol.amlinellu'r gwahanol strategaethau a ddefnyddir i ddarparu addysg i ddisbylion oedd mewn perygl o ddatgysylltu â'r system addysg e.e. Derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, cyrsiau galwedigaethol yn y colegau, disgyblion ag anghenion ychwanegol sylweddol (AYS), Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), disgyblion â phroblemau ymddygiad. Mewn ymdrech i gadw disgyblion mewn addysg a gwella eu deilliannau bywyd, roedd rhaglenni addysg pwrpasol wedi eu dyfeisio ar eu cyfer;cadarnhawyd mai ychydig o fyfyrwyr yn y sir oedd yn derbyn eu haddysg gartref yn ôl dewis rhiant, roedd y plant hyn yn hysbys i'r Cyngor ac felly byddai'n sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau diogelu tuag atynt.

  Er bod gan yr Awdurdod ddyletswydd i ddarparu addysg statudol i blant hyd at 16 oed, os nad oedd y rhieni yn dewis cysylltu â'r Cyngor roedd hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i'r Awdurdod gyflawni ei ddyletswyddau addysgol ac weithiau i gyflawni ei ddyletswyddau diogelu.  Fodd bynnag, byddai'r Cyngor bob amser yn gwneud pob ymdrech i gyflawn pob dyletswydd.

  Roedd nifer o sefydliadau eiriolaeth plant wedi canmol y camau a gymerwyd gan Sir Ddinbych i ymdrechu i ymgysylltu â rhieni/gwarchodwyr anodd eu cyrraedd neu wedi ymddieithrio.  Roedd hefyd yn bwysig cofio bod gan nifer o gyrff a sefydliadau cyhoeddus, gan gynnwys ymarferwyr iechyd ddyletswydd i roi gwybod am bryderon diogelu i'r Heddlu ac i awdurdodau lleol;

- bod disgyblion yn gorfod cofrestru mewn canolfan arholi i eistedd arholiadau cydnabyddedig e.e. ysgol  Byddai'r myfyriwr ond yn cael eistedd arholiad ym mha bynnag ganolfan yr oedd wedi cofrestru;cadarnhawyd bod yr Awdurdod yn hyderus bod pob un o'i ddisgyblion yn hysbys i'r Cyngor ac o ganlyniad roedd swyddogion yn gwybod yn union y math o gefnogaeth yr oedd pob disgybl ei angen.  Er bod cyfraddau absenoldeb yn bennaf yn uwch yn ysgolion cynradd ac uwchradd ardal arfordirol y sir roedd yn bwysig deall bod dros 35% o ddisgyblion y sir yn mynychu'r ysgolion hyn ac roedd nifer ohonynt yn destun amddifadedd ac/neu'n wynebu heriau difrifol.dywedwyd er bod Llywodraeth Cymru yn tueddu i ganolbwyntio a rhoi mwy o bwyslais ar L2, L2+, cyrhaeddiad disgyblion Safon Uwch a Lefel 3, roedd yn bwysig cofio bod rhai disgyblion sy'n cyflawni achrediad L1 yn gyrhaeddiad.  I'r

disgyblion hyn, roedd L1 yn fwy ystyrlon a byddai’n gwella eu canlyniadau bywyd;cadarnhawyd bod rhoi gwybod am gyrhaeddiad mewn perthynas â Phrydau Ysgol am Ddim yn ofyniad gan Lywodraeth Cymru, ond sicrhawyd yr aelodau bod hawl disgyblion unigol i Brydau Ysgol am Ddim ond yn hysbys i staff gweinyddol yr ysgol a staff y sir at ddibenion ystadegau yn unig.  Ni fyddai cyfoedion yn ymwybodol pa ddisgyblion oedd yn derbyn Prydau Ysgol am Ddim.  Roedd hefyd yn bwysig cofio nad oedd hawl i Brydau Ysgol am Ddim yn angenrheidiol yn golygu y byddai plentyn yn ei chael hi’n anodd cyflawni’n academaidd, roedd yn dibynnu ar amgylchiadau pob plentyn unigol a’r gefnogaeth ar gael iddyn nhw gartref ac yn yr ysgol;eglurwyd y system ‘Sgôr Capio 9’ newydd oedd yn rhoi cyfartaledd perfformiad disgybl unigol ar draws ei 9 b/pwnc gorau (gan gynnwys Cymraeg/Saesneg iaith, 2 arholiad mathemateg a hyd at fwyafswm o ddau gymhwyster galwedigaethol).   Gan fod Llywodraeth Cymru yn defnyddio’r sgôr hwn fel mesur perfformiad ar gyfer cyrhaeddiad, drwy amodiad y gall y 9 pwnc gorau ond cynnwys mwyafswm o 2 gymhwyster galwedigaethol, roedd y Llywodraeth fel petai’n diystyru’r hyn oedd orau i’r disgybl.  Roedd hefyd yn ymddangos yn anghyson gydag ardal 3 o’r fframwaith arolwg newydd gan Estyn oedd yn canolbwyntio ar ansawdd addysgu, ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm, a darpariaeth sgiliau.  Roedd Llywodraeth Cymru yn archwilio’r anghysondeb hwn ar hyn o bryd;

- eglurwyd er nad oedd Bagloriaeth Cymru yn cael ei chydnabod at ddibenion data perfformiad Llywodraeth Cymru fel naill ai cymhwyster TGAU neu Safon Uwch, roedd yn ofynnol i bob ysgol adrodd ar berfformiad disgyblion sy’n ennill y cymhwyster hwn.  Er hynny, mae nifer cynyddol o brifysgolion wedi cydnabod Bagloriaeth Cymru fel cymhwyster lefel mynediad Gwasanaeth Derbyniadau Prifysgolion a Cholegau (UCAS).dywedwyd mai Cymwysterau Cymru oedd y corff oedd yn rheoleiddio cymwysterau allanol.  Penderfynodd ar gwmpas cymhwyster a’r dull yr asesir e.e. ar sail modiwl, ar sail arholiad neu cymysgedd o’r ddau;dywedwyd bod disgyblion gydag awtistiaeth a phroblemau iechyd meddwl yn wynebu nifer o heriau yn eu bywyd bob dydd.  Er hynny, roedd nifer o’r disgyblion hyn yn gyflawnwyr uchel.  Ni fyddai’r Awdurdod yn aros am ddiagnosis swyddogol o anghenion meddygol disgybl cyn darparu’r gefnogaeth ofynnol.  Roedd strategaethau ymyrraeth a gwaith o fewn ysgolion yn sicrhau y darperir cefnogaeth briodol gynted ag y bydd angen lle nodwyd hynny.  Fodd bynnag, roedd y cynnydd mawr yn y nifer o ddisgyblion gyda phroblemau iechyd meddwl mewn blynyddoedd diweddar o bryder mawr ac o ganlyniad angen adnoddau sylweddol i’w gefnogi;dywedwyd bod llywodraethwyr yn cael eu gwneud yn ymwybodol o effaith ymddygiad gwael ac ymddygiad sy’n tarfu ar ddisgyblion eraill a’r angen i leihau maint dosbarthiadau i reoli’r broblem;

- cadarnhawyd ei bod yn galonogol bod y Cyngor wedi cynnwys blaenoriaeth yn ei Gynllun Corfforaethol newydd i gefnogi pobl ifanc y sir i gael y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni eu potensial.  Byddai cyngor gyrfaoedd effeithiol yn hanfodol i sicrhau bod disgyblion yn gwireddu eu llawn botensial a chefnogi nod y Cyngor o gyflawni’r flaenoriaeth gorfforaethol;cadarnhawyd bod y Gwasanaeth Addysg yn dadansoddi a chymharu cyrhaeddiad addysgol ar sail rhyw, mis geni, ethnigrwydd ac ati.  Roedd y wybodaeth hon

hefyd ar gael mewn perthynas â phrofion cenedlaethol ac yn cael ei defnyddio fel rhan o’r pwysoli ar gyfer dadansoddi perfformiad yn gyffredinol. Yn y dyfodol byddai data sy’n ymwneud â’r dysgwyr mwyaf galluog yn cael ei ddadansoddi i geisio sicrhau eu bod yn cael eu herio’n effeithiol ac yn rheolaidd i wireddu eu llawn botensial. cadarnhawyd bod Grŵp Monitro Safonau Ysgolion y Sir yn cwestiynu penaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr ar bob agwedd o berfformiad eu hysgol – darpariaeth addysg, arweinyddiaeth a rheolaeth, gan gynnwys rheolaeth ariannol. Er bod gan swyddogion Gwasanaeth Addysg y sir wybodaeth strategol o berfformiad ysgolion, ac roedd y Pennaeth a Chadeirydd Llywodraethwyr yn gyfrifol am gryfderau a gwendid ysgolion unigol a chyfrifoldebau eu rheoli a delio â nhw.dywedwyd y byddai rownd newydd arolygon Estyn, i ddechrau ym mis Medi 2018, hefyd yn archwilio ansawdd arweinyddiaeth mewn ysgolion unigol. Roedd gan fframwaith arolwg newydd Estyn ystod llawer ehangach na’r fframwaith arolwg presennol. Gallai ysgolion Sir Ddinbych a’r Awdurdod Addysg o bosibl berfformio'n dda o dan y fframwaith newydd gan mai un o'i gryfderau oedd ei gynnig addysg i holl ddisgyblion yn hytrach na ffocws bach ar gyflawni cymwysterau yn unig; eglurwyd fod gan Wasanaeth Addysg y sir rôl allweddol fel ‘ceidwad’ i sicrhau nad yw unrhyw blentyn yn y sir yn methu, i sicrhau lle bo hynny’n bosibl, nad yw unrhyw blentyn yn colli cysylltiad ac yn cael ei ystyried fel ‘rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogeth na hyfforddiant (NEET) a sicrhau bod pob disgybl ar ddiwedd eu siwrnai addysgol yn weithgar yn economaidd ac yn ddinasyddion cyfrifol. Roedd swyddogion yn fodlon rhoi eu barn yn genedlaethol ar sut oedd Sir Ddinbych yn ystyried pwysigrwydd ymgysylltu’n barhaus gyda disgyblion a rhieni/gwarchodwyr i sicrhau nad oedd datgysylltu yn opsiwn;dywedwyd bod y nifer o ddisgyblion yn Sir Ddinbych nad oedd mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi gostwng o 4% i 1.1%.

- cadarnhawyd bod llawer o waith wedi’i wneud gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar effaith Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod ar fywydau plant a dewisiadau ar gyfer y dyfodol. Er bod yr astudiaeth hon yn nodi mesurau sydd angen eu cymryd er mwyn gwella canlyniadau i blant sy'n destun profiadau niweidiol, iddynt fod yn llwyddiannus roedd angen agwedd aml-asiantaeth ac yn eiddo i bob partner.

Mewn ymateb i nifer o ymholiadau a godwyd yn ystod y drafodaeth, roedd swyddogion yn cytuno i ehangu’r adroddiad ar Reoli Ymddygiad ac Absenoldeb i’w gyflwyno i’r Pwyllgor yn Ebrill 2018 i gynnwys yr agweddau canlynol:

- her i’r ysgolion mewn perthynas ag ymddygiad ac absenoldeb;

- dyletswyddau’r Cyngor a grymoedd mewn perthynas â darparu addysg i blant o gymuned Sipsiwn a Theithwyr;

- pa un a oedd unrhyw dystiolaeth bod absenoldeb awdurdodedig yn effeithio ar berfformiad cyffredinol ysgolion unigol;

- darpariaeth ar gael i rieni sy’n dymuno mynd â’u plant ar ymweliadau estynedig dramor i fynychu digwyddiadau crefyddol neu i ymweld â theulu ac

ati a mesurau diogelu sydd gan yr Awdurdod i sicrhau bod pob disgybl yn dychwelyd i addysg llawn amser yn dilyn eu hymweliadau;

- manylion y cynnydd yn y nifer o ddisgyblion yn ysgolion y sir â phroblemau cymdeithasol yn y blynyddoedd diweddar a'r gwaith a wneir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod; a
- gorolwg ar y dadansoddiad a gynhaliwyd ar unrhyw gydgysylltiad posibl rhwng hawl i Brydau Ysgol am Ddim, presenoldeb yn yr ysgol a chyrhaeddiad.

Atgoffodd y Cydlynydd Archwilio y Pwyllgor y penderfynwyd mewn cyfarfod blaenorol i wahodd Penaethiaid a'r Cadeirydd Llywodraethwyr ysgolion uwchradd unigol, yn achlysurol, i gyfarfodydd yn y dyfodol i drafod cynnydd gydag aelodau ar ddarparu cynlluniau gwella ysgolion  Nod y camau hyn fyddai darparu cefnogaeth adeiladol i'r sawl sy'n gyfrifol am ysgolion gyda'r bwriad i wella pob agwedd o berfformiad, boed yn academaidd, ariannol, rheoli, presenoldeb ac ati;

Ar ddiwedd y drafodaeth roedd y Pwyllgor yn llongyfarch disgyblion yn Ysgol Plas Cefndy, Uned Atgyfeirio Disgyblion y Cyngor ar eu perfformiad ardderchog mewn arholiadau allanol yn 2016/17 a:

***<u>Penderfynwyd:</u>***

***(i) yn amodol ar y sylwadau uchod, derbyn gwybodaeth a ddarparwyd ar berfformiad ysgolion yn erbyn perfformiad blaenorol a'r meincnod allanol sydd ar gael ar hyn o bryd;***
***(ii) cadarnhau, fel rhan o'i ystyriaeth, ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 5); ac***
***(iii)anfon gwahoddiadau at y Pennaeth a Chadeirydd Llywodraethwyr dwy o ysgolion uwchradd y sir sy'n perfformio'n wael yn gyson i fynychu cyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol agos i drafod cynnydd cyflawni cynlluniau gwella'r ysgol.***

## 6 PERFFORMIAD CWYNION EICH LLAIS (CHWARTER 3)

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Datblygu Seilwaith Cymunedol adroddiad y Swyddog Cwynion Statudol a Chorfforaethol (dosbarthwyd yn flaenorol) oedd yn rhoi gorolwg o ganmoliaeth, awgrymiadau a chwynion a dderbyniwyd gan y Cyngor o dan ei bolisi adborth cwsmeriaid 'Eich Llais' yn ystod trydydd chwarter 2017/18.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys yr ystadegau ar y nifer o gwynion a dderbyniwyd o dan weithdrefn cwynion statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer yr un cyfnod, ynghyd â siartiau'n dangos tueddiadau perfformiad wrth ddelio gyda chwynion dros gyfnod o bedair blynedd.

Yn ystod Chwarter 3 o 2017/18 er nad oedd dwy gwyn Cam 1 wedi derbyn sylw o fewn y targed corfforaethol, roedd y Cyngor wedi cyrraedd ei darged drwy ddelio

gyda 98% o gwynion o fewn y targed 10 diwrnod gwaith. Roedd manylion yn yr adroddiad ar y rhesymau pam nad oedd wedi cwrdd â'r targed ar gyfer y ddwy gwyn nad oedd wedi derbyn sylw o fewn yr amserlenni a osodwyd.

Mewn ymateb i gwestiynau, roedd yr Aelod Arweiniol, Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol a'r Swyddog Cwynion Corfforaethol yn:

- cadarnhau mai diben yr adroddiad oedd mesur perfformiad y Cyngor wrth ddelio gyda chwynion o fewn yr amserlen a osodwyd, roedd yn adrodd ar y nifer a dderbyniwyd a'r amser a gymerodd i'r Cyngor ymateb iddynt. Nid oedd yn dadansoddi natur y gwyn;yn dweud er bod gan Wasanaethau fwyafswm o 10 diwrnod i ddelio gyda chwyn, roeddent yn derbyn sylw yn llawer cynt yn y rhan fwyaf o achosion; a

- chadarnhawyd bod y data a ddefnyddiwyd o dan y broses monitro perfformiad yn cael ei ddefnyddio gan wasanaethau ac adrannau i nodi tueddiadau yn y mathau o gwynion a dderbyniwyd ac i helpu i hybu mesurau gwella mewn meysydd lle roedd yn ymddangos bod cwynion ar gynnydd.

Cyflwynodd y Rheolwr Gwella Gwasanaeth y 'Dangosfwrdd Cwsmeriaid – Adroddiad Diweddariad' ynghlwm â'r adroddiad 'Eich Llais'. Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi gorolwg o ganlyniadau ymdrech a boddhad cwsmeriaid ar gyfer Chwarter 3 2017/18 yn dilyn y cysylltiad gyda'r Cyngor. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r nifer o ymatebion a dderbyniwyd i geisiadau am adborth gan gwsmeriaid, ynghyd â'r prif ymatebion cadarnhaol a negyddol a dderbyniwyd.

Yn ystod ei chyflwyniad, roedd y Rheolwr Gwella Gwasanaeth yn cydnabod y bu rhywfaint o ostyngiad mewn lefelau boddhad yng nghanlyniadau mis Tachwedd a Rhagfyr o'i gymharu â mis Hydref. Fodd bynnag, roedd cyfradd boddhad cwsmer o 80% ym mis Hydref yr uchaf a gofnodwyd hyd yma. Roedd gwaith ar y gweill i ymestyn yr arolwg boddhad cwsmer i rai gwasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd o fewn y Cyngor. Roedd y rhain yn wasanaethau oedd wedi cynhyrchu'r nifer fwyaf o alwadau i'r Cyngor. Rhagwelwyd y byddai'r datblygiad hwn yn helpu i wella gwasanaethau cwsmeriaid ar draws nifer o wasanaethau sy'n wynebu cwsmeriaid.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, roedd y Rheolwr Gwella Gwasanaeth, Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol a'r Swyddog Cwynion Corfforaethol yn:

- dweud mai'r rheswm pam bod 60 cwsmer yn teimlo bod y gwasanaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyswllt cyntaf gyda'r Cyngor heb ateb eu disgwyliadau oedd yn bennaf oherwydd eu bod yn disgwyl i'w problem gael ei datrys ar unwaith wrth gysylltu;

- cadarnhawyd bod y Cyngor yn y broses o recriwtio Swyddog Iaith Gymraeg ar hyn o bryd, a byddai ei rôl yn cynnwys sicrhau cydymffurfiaeth gyda Safonau Iaith Gymraeg y Cyngor;

- dywedwyd bod disgwyl i holl staff sy'n wynebu'r cwsmer a holl staff eraill ddangos empathi a thosturi wrth ddelio â'r cyhoedd hyd yn oed os oeddent

yn delio gydag achwynydd dig. Fodd bynnag, roedd yn bwysig cofio nad oedd holl aelodau'r cyhoedd yn trin swyddogion gyda pharch a chwrteisi;

- cadarnhawyd os oedd gan aelodau bryderon am berfformiad Gwasanaeth wrth ddelio gyda chwynion neu gyfraddau boddhad cwsmer mewn perthynas â Gwasanaeth penodol, gall y Pwyllgor eu gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol i archwilio a thrafod y pryderon hynny; ac
- amlinellwyd y broses y dylai'r aelodau ei dilyn yn defnyddio'r system EMMA pan fyddent angen dilyn ymholiad/cais am wasanaeth a gofrestrwyd ar y system CRM.

Cafodd yr Aelodau wybod gan yr Aelod Arweiniol a'r Rheolwr Gwella Gwasanaeth bod y contract ar gyfer darparu system Rheoli Perthynas Cwsmer newydd yn parhau yn y broses o gael ei lunio. Roedd cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer yr wythnos ddilynol gyda'r bwriad i geisio cytundeb ar ddrafft terfynol y contract. Ar ôl cytuno arno a'i gymeradwyo, gwneir trefniadau i weithredu'r system, gan gynnwys hyfforddiant i staff ac aelodau ar ei ddefnyddio ac ati.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

***Penderfynwyd:***

***(i) derbyn adroddiad ar berfformiad y Cyngor wrth ddelio gyda chwynion, canmoliaeth ac awgrymiadau a dderbyniwyd o dan y weithdrefn Cwynion Corfforaethol 'Eich Llais' yn ystod Chwarter 3, 2017-2018; a***

***(ii) derbyn y data ar ganlyniadau Ymdrech a Boddhad Cwsmeriaid ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych Chwarter 3, 2017-18.***

## 7 GWASANAETH A REOLIR AR GYFER DARPARU GWEITHWYR ASIANTAETH

Wrth gyflwyno cydadroddiad y Rheolwr Gweithredoedd Cyfreithiol a Chaffael a'r Rheolwr Categori (Gwasanaethau Proffesiynol) Gwasanaeth Caffael Cydweithrediadol (dosbarthwyd yn flaenorol) hysbysodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau yr aelodau bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar gais y Cabinet.

Yn ystod ei gyflwyniad dywedodd yr Aelod Arweiniol oddeutu 10 mlynedd yn ôl bod y Cyngor at ddibenion gwerth gorau wedi ymuno â chytundeb Fframwaith at ddibenion cyflogi staff dros dro. Gan fod y Cyngor nawr yn gweithredu Gwasanaeth Caffael ar y cyd gyda Chyngor Sir y Fflint roedd y ddau awdurdod wedi penderfynu alinio dyddiadau diwedd contract eu Fframwaith presennol i'w galluogi i fynd allan i dendro ar y cyd ar Fframwaith newydd i ddechrau ar ddyddiad cyfleus i bawb gyda golwg ar wireddu buddion ariannol mwyaf i'r ddau gyngor.

Y Cabinet wrth ystyried pa un ai i gymeradwyo dechrau ymarfer caffael gyda'r bwriad i ddechrau contract o benodi asiantaeth i gyflenwi staff dros dro i'w defnyddio gan y Cyngor yn ei gyfarfod yn Rhagfyr 2017 wedi gofyn i'r Pwyllgor

Archwilio edrych yn fanwl ar y meysydd canlynol sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith a phenodi asiantaeth i ymgymryd â'r gwaith:

- Data cymharol ar wariant Sir Ddinbych a Sir y Fflint ar staff asiantaeth mewn blynyddoedd diweddar;
- Gwariant Sir Ddinbych cyn dechrau'r contract asiantaeth Matrics presennol a'i wariant gyda Matrics o dan gontract blaenorol hyd at 2014;
- manylion cymharol ar gyfraddau tâl ac amodau gwasanaeth i staff parhaol y Cyngor a'r sawl a gyflogir drwy asiantaeth i ymgymryd â'r un dyletswyddau;
- atebion eraill posibl i'r Fframwaith oedd ar gael ar gyfer dod o hyd i staff dros dro ar fyr rybudd; a'r
- rhesymau pam bod angen i'r Cyngor ddefnyddio staff asiantaeth.

Roedd y data gofynnol wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ac atodiadau cysylltiol a rhoddodd yr Aelod Arweiniol fanylion y cynnwys i aelodau'r Pwyllgor cyn gwahodd cwestiynau. Dywedodd fod y Cabinet wedi rhoi cyfarwyddyd i swyddogion ddechrau'r broses dendro ar y ddealltwriaeth bod y Pwyllgor Archwilio yn adrodd ar ei ganfyddiadau i'r Cabinet cyn gofyn iddo benodi darparwr. Roedd yr ymarfer caffael wedi dechrau gan ddefnyddio Fframwaith MSTAR 2 Gorchymyn Caffael Eastern Shires (ESPO).

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a'r Swyddogion Cyfreithiol a Chaffael i gwestiynau aelodau gan:

- egluro sut oedd y Fframwaith yn gweithio a dywedwyd os oedd angen staff yna byddai'r holl fanylion yn mynd ar y System Caffael fyddai wedyn yn hysbysu pob asiantaeth a gofrestrwyd ar y Fframwaith am ofynion y Cyngor a'u gwahodd i gyflwyno manylion ymgeiswyr posibl.
- cadarnhawyd bod y mwyafrif o gyflogwyr mawr yn defnyddio staff asiantaeth ar gyfer staff arbenigol ar fyr rybudd at ddibenion rhyddhau pwysau annisgwyl neu i ymgymryd â gwaith prosiect o fewn amser cyfyngedig;
- dywedwyd nad oeddent yn defnyddio'r fframwaith Gweithwyr Asiantaeth ar gyfer staff gofal cartref ac athrawon cyflenwi, roeddent yn cael eu cyflogi neu eu comisiynu yn defnyddio systemau neu gontractau eraill;
- cadarnhawyd bod y system Matrics a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer darparu staff asiantaeth yn cynnwys adran gyda rhestr o holl ddogfennau gorfodol wedi eu gwirio yr oedd yn ofynnol i staff posibl eu darparu e.e. cymwysterau proffesiynol, prawf preswylio/dogfennau hawl i weithio ac ati. Gall y Cyngor hefyd ychwanegu dogfennau/gwiriadau eraill a ddilyswyd y byddai staff angen eu darparu e.e. gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) ac ati; wrth roi manylion swyddi sydd angen eu llenwi dros dro ar y Fframwaith byddai'r Cyngor yn nodi ei gyfradd tâl ar gyfer y swydd. Fodd bynnag, yn dibynnu ar y sgiliau arbenigol sydd eu hangen mae'n bosibl

y bydd asiantaeth yn cysylltu â'r Cyngor yn gofyn am gyfradd uwch/gyfradd premiwm ar gyfer swyddi o'r fath os oeddent yn cael anawsterau i ddenu ymgeiswyr ar raddfa cyflog y Cyngor. Llond llaw o staff asiantaeth fesul blwyddyn sy'n gweithio i Sir Ddinbych oedd yn debyg o gael eu talu ar raddfa premiwm, roeddent yn weithwyr proffesiynol arbenigol oedd yn brin iawn ar draws y wlad e.e. Syrfewyr Meintiau;

- dywedwyd bod staff asiantaeth sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor yn derbyn yr un rhaglen sefydlu â'r staff a benodir gan y Cyngor ei hun a byddent â'r un hawliau iechyd a lles â staff y Cyngor ei hun. Ni fu unrhyw achosion na thensiwn rhwng staff y Cyngor a staff asiantaeth yn Sir Ddinbych, roedd y staff i gyd yn parchu ei gilydd ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau; sicrhawyd aelodau bod Cyngor Sir Ddinbych wedi mabwysiadu dull rhyngweithiol i reoli'r defnydd o weithwyr asiantaeth, gan sicrhau eu bod yn cael eu cyflogi yn bennaf ar gyfer prosiectau amser cyfyngedig neu i ryddhau pwysau tymor byr, felly'r gwahaniaeth sy'n cael ei wario gan Sir Ddinbych o'i gymharu â Chyngor Sir y Fflint dros yr un cyfnod o amser (fel y manylwyd yn yr atodiadau gyda'r adroddiad);

- dywedwyd y gallent gynnwys cwestiwn o dan y Fframwaith newydd ynglŷn â pha un a oedd gan ymgeiswyr posibl 'wiriadau GDG presennol cludadwy' y gellir eu defnyddio fel gwiriad yn hytrach na gorfod ymgeisio am wiriad GDG ar wahân a allai ohirio eu penodiad ar gyfer swydd;

- dywedwyd bod penderfyniad ynglŷn ag a ddylid talu goramser i weithwyr Sir Ddinbych i ymgymryd â rolau o fewn eu gwasanaeth er mwyn rhyddhau pwysau neu i ddarparu prosiect, yn hytrach na chyflogi staff asiantaeth i ymgymryd â'r gwaith, yn benderfyniad i'r Gwasanaeth dan sylw. Fodd bynnag, cyn dechrau ymarfer caffael ar gyfer cyflogi staff asiantaeth, byddai'r Gwasanaeth sydd angen y staff angen dangos bod yr holl fesurau posibl i fynd i'r afael â phrinder staff wedi'i archwilio;cadarnhawyd bod y Gwasanaeth Caffael yn monitro defnydd Gwasanaethau o staff asiantaeth a'u cyfnod contract yn agos. Cyn i gyfnod contract ddod i ben byddai swyddogion yn cysylltu â'r gwasanaeth perthnasol i gadarnhau a ydynt dal angen gwasanaeth gweithiwr asiantaeth am gyfnod pellach o amser. Roedd y gwaith monitro contract hwn yn bwysig gan fod staff asiantaeth a gyflogir am gyfnod mwy na 12 wythnos yn gymwys i hawliau cyflogaeth penodol; adywedwyd os oedd y Cyngor am fabwysiadu polisi talu 'Cyflog Byw Gwirioneddol' fel y pwynt graddfa cyflog isaf ar draws yr Awdurdod byddai hyn yn effeithio ar bob pwynt graddfa cyflog arall. O ganlyniad, byddai'n cynyddu cost staff asiantaeth yn ogystal â'u cyfraddau yn y mwyafrif o achosion a osodwyd ar yr un raddfa â graddfeydd cyflog Sir Ddinbych ar gyfer yr un swydd.

Mewn ymateb i awgrym gan Gadeirydd y Pwyllgor y gellir cryfhau trefniadau llywodraethu ar gyfer y contract Fframwaith newydd arfaethedig o safbwynt Sir Ddinbych os byddai cynrychiolydd o Adran Adnoddau Dynol y Cyngor a'i Adran Archwilio Mewnol yn mynychu'r cyfarfodydd adolygu chwarterol rheolaidd yn y dyfodol – dywedodd swyddogion bod trafodaethau ynglŷn â chynrychiolaeth Adnoddau Dynol mewn cyfarfodydd adolygu yn y dyfodol wedi eu cynnal y diwrnod

blaenorol gyda Rheolwr  Adnoddau Dynol a oedd wedi cytuno y dylai cynrychiolydd Adnoddau Dynol fynychu cyfarfodydd adolygu yn y dyfodol.  Byddai Adnoddau Dynol hefyd o hyn ymlaen yn llunio a chyflenwi gwybodaeth dadansoddi data i reolwyr Gwasanaeth ar ddefnydd eu gwasanaeth o staff asiantaeth.

Yn dilyn trafodaeth fanwl gwnaeth y Pwyllgor:

***Benderfynu: yn amodol ar y sylwadau uchod -***

***(i) Hysbysu'r Cabinet, ar ôl ystyried yr holl wybodaeth y gofynnodd i'r Pwyllgor Archwilio ei hadolygu mewn perthynas â'r ymarfer caffael ac unrhyw ddewisiadau eraill posibl sydd ar gael i'r Cyngor ar gyfer darparu gwasanaeth rheoli ar gyfer cyflenwi gweithwyr asiantaeth, roedd yn fodlon bod y contract presennol yn cael ei reoli a'i ddefnyddio'n effeithiol, ac na fyddai trefniadau amgen yn ddewis effeithiol nac ymarferol ar gyfer darparu staff arbenigol dros dro neu am amser cyfyngedig;***

***(ii) argymell i'r Cabinet y dylai symud ymlaen gyda'r broses gaffael i ddarparwr gyflenwi staff asiantaeth i'w defnyddio ar draws gwasanaethau'r Cyngor; ac***

***(iii)ar ddiwedd y broses gaffael, yn seiliedig ar werth gorau, penodi'r tendrwr mwyaf economaidd i gyflenwi'r gwasanaeth.***

## 8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Archwilio adroddiad (a gylchredwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r
Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol.

Roedd copi o "ffurflen gynnig Aelodau" wedi'i chynnwys yn Atodiad 2. Gofynnodd y Cydlynydd Archwilio i unrhyw gynigion gael eu cyflwyno iddi hi. Mae Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 ac mae tabl gyda chrynodeb o benderfyniadau diweddar y Pwyllgor a gwybodaeth am y cynnydd eu rhoi ar waith wedi ei gynnwys yn Atodiad 4.

Mewn ymateb i'r nifer o ymholiadau a godwyd yn ystod trafodaeth gynharach ynglŷn â gwirio canlyniadau arholiad cyfnod allweddol 4 cytunwyd i ehangu'r adroddiad gerllaw ar Reoli Ymddygiad ac Absenoldeb i gynnwys yr ymholiadau hynny ar gyfer y Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn Ebrill 2018.

Roedd y Pwyllgor hefyd yn gynharach wedi gofyn i wahoddiadau gael eu hanfon at y Pennaeth a Chadeirydd Llywodraethwyr dwy o ysgolion uwchradd y sir sy'n perfformio'n wael yn gyson i fynychu cyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol agos i drafod cynnydd cyflawni cynlluniau gwella'r ysgol.

Cyfeiriodd y Pwyllgor Archwilio y Pwyllgor at yr adroddiad Diweddariad Gwybodaeth (dosbarthwyd yn flaenorol) a llythyr a dderbyniwyd gan Ysgrifennydd Cabinet Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn nodi ei fod yn hapus i

swyddogion Llywodraeth Cymru fynychu Pwyllgor Archwilio Perfformiad i drafod arian cyfalaf ar gyfer prosiectau priffyrdd.   Cytunwyd i anfon gwahoddiad gyda sawl dewis dyddiad.

Gofynnodd y Pwyllgor Archwilio am fynegiant diddordeb mewn cynrychioli'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar y Grŵp Tasg a Gorffen Gofal Cymdeithasol Mewnol Gwasanaethau Oedolion.  Ymatebodd y Cynghorydd Huw Jones bod un o'r canolfannau gofal dan drafodaeth yn ei ward ef ac y byddai'n dymuno cael ei ystyried.

***PENDERFYNWYD –***

***(i)   yn amodol ar y sylwadau a'r diwygiadau uchod, y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; a***

***Cynghorydd Huw Jones i gael ei benodi fel cynrychiolydd y Pwyllgor ar Grŵp Tasg a Gorffen Gofal Cymdeithasol Mewnol Gwasanaethau Oedolion.***

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Hysbysodd y Cynghorydd Geraint Lloyd Williams y Pwyllgor y byddai'n mynychu'r Her Cyfleusterau, Asedau a Gwasanaethau Tai ar 14 Chwefror.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:15